*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democrataidd (01443 424098)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod hybrid o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal ar **DYDD MERCHER, 15FED RHAGFYR, 2021** am **5.00 PM.**

| AMSER | EITEM | TUDALEN(NAU) |
|---|---|---|
| 5 Munud | **ITEM 1. DATGANIAD O FUDDIANT**<br><br>Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor<br><br>1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a<br>2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael. | |
| 10 Munud | **ITEM 2. CYHOEDDIADAU** | |
| 5 Munud | **ITEM 3. COFNODION**<br><br>Cadarnhau cofnodion o gyfarfod arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2021 am 3.30pm yn rhai cywir. | 5 - 10 |
| | **LLYWODRAETHU AGORED:** | |
| 10 Munud | **ITEM 4. DATGANIADAU**<br><br>Yn unol â Rheol 2 o Weithdrefn Llywodraethu Agored Cyfarfodydd y Cyngor, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet: | |
| 20 Munud | **ITEM 5. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU**<br><br>Derbyn cwestiynau'r Aelodau yn unol â Rheol 9.2 o Weithdrefn y Cyngor.<br><br>(**Nodwch:** Caniateir hyd at 20 munud ar gyfer cwestiynau.) | 11 - 20 |
| | **RHAGLEN WAITH Y CYNGOR – ER GWYBODAETH I AELODAU**<br>Rhaglen Waith y Cyngor 2021/22 | |
| | **ADRODDIADAU'R SWYDDOGION** | |
| 15 Munud | **ITEM 6. AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH**<br><br>Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu. | 21 - 28 |
| 15 Munud | **ITEM 7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL 2020/21**<br><br>Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu. | 29 - 66 |
| 20 Munud | **ITEM 8. RHYBUDD O GYNNIG**<br><br>Trafod y Rhybudd o Gynnig isod sydd wedi'i gyflwyno yn enwau:<br><br>S. Bradwick, M. Forey, L. M. Adams, J. Barton, D. R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, J. Brencher, A. Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De- Vet, J. Edwards, J. Elliott, S. Evans, G. Jones, M. Fidler Jones, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G. Holmes, G. Hopkins, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R. K. Turner, M. Webber, D. Williams, R. Williams, T. Williams, R. Yeo<br><br>Dylai banciau fod yn wasanaeth hanfodol yn ein cymunedau, gan gynnig mynediad cyfleus i drigolion i'w harian a'u galluogi nhw i ofalu am unrhyw faterion ariannol personol. Yn aml, maen nhw wedi'u lleoli yng nghanol ein trefi, yn agos at gyfleusterau a siopau hanfodol eraill.<br><br>Yr hysbysiad sy'n nodi y bydd cwmni Barclays yn cau ei gangen yn Sgwâr Fictoria yn Aberdâr ym mis Mawrth 2022 yw'r enghraifft ddiweddaraf o wasanaethau ariannol yn cael eu tynnu'n ôl o gymunedau Rhondda Cynon Taf. Os bydd y cynlluniau'n cael eu cymeradwyo, byddan nhw'n cael effaith niweidiol ar y cyfleoedd sydd gan ein trigolion i ddefnyddio'r cyfleusterau yma, yn ogystal â chael effaith ar fywiogrwydd canol ein trefi. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ein canol trefi yn llefydd deniadol a chroesawgar ar gyfer y cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu, yn enwedig ar ôl yr anawsterau eithriadol y mae | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | masnachwyr lleol wedi'u hwynebu yn ystod y 18 mis diwethaf.<br><br>Mae Aberdâr eisoes wedi gweld NatWest a HSBC yn tynnu eu gwasanaethau o'r dref, tra bod Trefforest, Treorci, Porth ac Aberpennar ymhlith yr ardaloedd eraill sydd hefyd wedi gweld banciau'n cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.<br><br>Ni fydd y sicrwydd sy'n cael ei ddarparu gan Barclays ynghylch y gwasanaethau agosaf ym Merthyr Tudful a Phontypridd yn fawr o gysur i nifer o bobl, bydd y daith i'r naill gangen yn cymryd rhwng 40-50 munud.<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn dymuno cofnodi ei wrthwynebiad i'r cynlluniau i gau Banc Barclays yn Aberdâr ac yn penderfynu:<br><br>• Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Bennaeth Cysylltiadau Corfforaethol Wales and West a Phrif Weithredwr Banc Barclays i alw am ailystyried y cynlluniau.<br><br>• Gofyn bod y Cyngor yn ceisio sicrhau bod y buddion cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chynnal cyfleusterau bancio lleol yn ein cymunedau yn cael eu cynnwys yn rhan o'n perthynas â'r sector bancio yn y dyfodol. | |
| | **ITEM 9. MATERION BRYS**<br><br>Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig. | |

**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**At: Pob Aelod o'r Cyngor**